CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 26 TACHWEDD 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)
Mr P J Wood (Dirprwy Gadeirydd)
Y Parch. H M Davies

Sylwedydd

Mr J Bader

Ysgrifenyddiaeth
Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. S R Halsall
Mr. D Carr
Mr. R Handscomb
Mrs. Abbie Prescott-Bird

Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) [rhan]
Mr C Davies
Mr J Herniman

Croesawodd y Cadeirydd Mr Bader i'r cyfarfod a fyddai'n cychwyn ei benodiad yn Aelod o'r Comisiwn ar 1 Ionawr 2009.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd. Nodwyd bod Mr Bader wedi rhoi rhestr o'i fuddiannau i'r Ysgrifenyddiaeth.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 15 HYDREF 2008

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Arolwg Cymunedol Wrecsam

3.1 Adroddwyd nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud penderfyniad eto ynghylch Adroddiadau a Chynigion Arolwg Cymunedol Wrecsam y Comisiwn. Mae'r mater hwn i'w godi mewn cyfarfod cyswllt chwarterol rhwng yr Ysgrifenyddiaeth a'r Isadran Noddi.

Canlyniadau Etholiadau Cynghorau Cymuned

3.2 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi ysgrifennu at yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru i gael eu sylwadau ar ganfyddiadau canlyniadau etholiadau cynghorau cymuned 2008. Roedd amryw o ymatebion wedi'u derbyn oddi wrth gynghorau a gobeithir y byddai'r adborth yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarfodydd blynyddol a gweithdai yn y dyfodol.

Arolwg Cymunedol Blaenau Gwent

3.3 Nodwyd bod y ffigurau etholiadol ar gyfer y newidiadau arfaethedig wedi'u derbyn oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Byddai'r Adroddiad cynigion Drafft yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

Cynigion Saesneg Clir

3.4 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi cymryd y camau gweithredu angenrheidiol a gytunwyd yng nghyfarfod mis Hydref y Comisiwn a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

Arolwg Cymunedol Abertawe

3.5 Adroddwyd bod ateb wedi'i anfon at Independents@Swansea fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach.

Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg

3.6 Roedd Cyfreithiwr y Trysorlys bellach wedi rhoi cyngor cyfreithiol ynghylch Adroddiad Cynigion Drafft Bro Morgannwg. Ystyriodd y Comisiwn y cyngor am Gymuned Saint-y-brid a meintiau cymharol y cymunedau ym Mro Morgannwg. Nodwyd bod yr holl gynrychiolaethau a oedd o blaid Ward Ogwr yn gwahanu oddi wrth y gymuned wedi dod oddi wrth breswylwyr Ogwr ac ni chafwyd yr un oddi wrth Saint-y-brid neu Southerndown. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig y dylai ward Ogwr ffurfio cymuned newydd yn yr Adroddiad Cynigion Drafft a cheisir barn ynghylch a ddylid cynnwys Southerndown yng nghymuned arfaethedig Ogwr neu a ddylai aros yng Nghymuned Saint-y-brid.

4. AROLWG CYMUNEDOL CONWY – YSTYRIAETH O GYNRYCHIOLAETHAU

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar gyfer Adroddiad Cynigion Drafft Arolwg Cymunedol Conwy. Roedd pedwar mater wedi codi o blith y cynrychiolaethau a dderbyniwyd sef:

Hawl Dramwy Gyhoeddus 63

4.2 Roedd ailaliniad arfaethedig o'r ffin rhwng Cymunedau Conwy a Llandudno yn dilyn canol llwybr Hawl Dramwy Gyhoeddus 63. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y byddai'n well petai'r ffin yn dilyn y ffens i'r de o'r llwybr er mwyn sicrhau y cynhwysir yr holl lwybr yng Nghymuned Llandudno. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn newid eu hailaliniad arfaethedig o'r ffin i ddilyn y ffens i'r de o'r llwybr.

Bryn Pydew

4.3 Tynnodd amryw gynrychiolaeth sylw at y ffaith nad yw ailaliniad arfaethedig y ffin rhwng Cymunedau Conwy a Llandudno ym Mryn Pydew yn cynnwys amryw eiddo a oedd mor agos at anheddiad Bryn Pydew â'r rhai hynny a oedd yn ailaliniad arfaethedig y ffin. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y ffin arfaethedig yn dilyn llinell ddiffiniedig eglur y ffordd. O ystyried ehangder yr eiddo ychwanegol a diffyg amlwg nodweddion daearyddol clir, byddai'n anodd llunio ffin arall a fyddai'n cynnwys yr eiddo ychwanegol. Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn cadw eu hailaliniad arfaethedig o'r ffin ar gyfer eu Cynigion Terfynol.

Ward Deganwy

4.4 Tynnodd amryw gynrychiolaethau sylw at y ffaith nad oedd ailaliniad arfaethedig y ffin rhwng Cymunedau Conwy a Llandudno yn Neganwy yn ymddangos ei bod yn ystyried y posibilrwydd o unrhyw ddatblygiad i'r gogledd-ddwyrain o'r ardal breswyl yn y dyfodol. Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi canfod yn ystod ymweliad safle â'r ardal bod arglawdd serth a fyddai'n atal yn ddifrifol unrhyw ddatblygiad pellach i'r gogledd-ddwyrain. Yn ogystal, roedd rhan o'r ardal yn gwrs golff. Felly ystyriwyd y byddai datblygiad i'r gogledd-ddwyrain yn annhebygol o ddigwydd. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw eu hailaliniad arfaethedig o'r ffin ar gyfer eu Cynigion Terfynol.

Trefriw / Dolgarrog

4.5 Adroddwyd bod y Cadeirydd a'r Dirprwy Ysgrifennydd wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus a oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned Trefriw a Dolgarrog. Daeth yn amlwg yn y cyfarfod nad oedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig arfaethedig i gyfuno'r ddwy gymuned a bod bellach gynghorau effeithiol yn gweithredu yn y ddwy gymuned fel ei gilydd. **Cytunwyd** na fyddai'r Comisiwn yn cynnig cyfuno Cymunedau Trefriw a Dolgarrog.

5. AROLWG CYMUNEDOL CAERDYDD

5.1 Ystyriodd y Comisiwn y cyfarfod cynharach roeddent wedi'i gynnal ag amryw gynrychiolwyr o breswylwyr Canopus Close. Roedd yn amlwg yn y cyfarfod bod y preswylwyr am barhau i fod yn rhan o Gymuned Hen Laneirwg. Nodwyd gan fod Canopus Close a Duncan Close yn rhannu'r un ffordd fynediad y dylent fod yn yr un gymuned. Petai Canopus Close yn aros yn Hen Laneirwg, yna byddai'n rhaid i'r Comisiwn fynd i'r afael â'r mater a ddylai Duncan Close gael ei symud hefyd, o Gymuned Tredelerch i Gymuned Hen Laneirwg. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at breswylwyr Duncan Close i gael eu barn ar y cynnig hwn.

6. TREFNIADAU GWEITHDAI

6.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod yr amserlenni ar gyfer y ddau weithdy wedi'u cwblhau ac fe'u cyflwynwyd i'r cyfarfod. Roedd ffurflenni adborth yn parhau i gael eu derbyn ynghylch gweithdy Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Agored Llandudno ac yn gyffredinol roedd y farn yn gadarnhaol.

7. ADRODDIAD ARIANNOL – AIL CHWARTER 2008-09

7.1 Adroddwyd er bod tanwario wedi'i amcangyfrif yn gyffredinol ar gyfer diwedd y flwyddyn, byddai gwariant mawr ar amryw eitemau yn y dyfodol agos ond ni wyddys beth fyddai eu hunion bris a'r pennaf ohonynt fyddai'r costau a oedd yn gysylltiedig â throsglwyddo system TG y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i fonitro gwariant ac adrodd yn ôl i'r Comisiwn pan wyddys beth fyddai'r union brisiau.

8. GWASANAETHAU ARIANNOL A CHYFRIFYDDIAETH CFfLILC

8.1 Nododd y Comisiwn y dewisiadau a oedd ar gael. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn paratoi papur ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol a fyddai'n asesu'r dewisiadau a fyddai gan y Comisiwn.

9. COFNOD O GYFARFOD Â'R GWEINIDOG

9.1 Nododd y Comisiwn gofnod o'u cyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Leol y Cynulliad. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn adolygu'r materion a godwyd o bryd i'w gilydd.

10. AROLWG O CFfLILC – ADRODDIAD SAC

10.1 Croesawodd y Cadeirydd Mr Davies a Mr Herniman i'r cyfarfod. Dywedodd Mr Davies mai casgliad cyffredinol adroddiad SAC oedd y dylai Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (CFfLlLC) barhau ond bod angen cryfhau sawl rhan ohono. Yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad oedd y dylai'r Comisiwn:

1. Ddatblygu Cynllun Corfforaethol;
2. Datblygu mesurau perfformio cytbwys er mwyn monitro cynnydd i fodloni'r amcanion a'r targedau a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol;
3. Diffinio nodweddion meintiol ac ansoddol arolwg;
4. Sicrhau bod cysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn eglur;
5. Llunio system rheoli gwybodaeth addas;
6. Datblygu gweithdrefnau grymus ar gyfer gosod cyllideb;
7. Cryfhau adroddiadau monitro cyllideb i aelodau'r Comisiwn; ac
8. Adolygu'r angen am swyddogaeth gyfrifo allanol.

Gwnaed argymhellion hefyd i Gynulliad Cymru ynghylch rhoi Cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ar gyfer yr arolwg etholiadol sydd i ddod a dod i ben â Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol y Comisiwn.

10.2 Roedd y Comisiwn o'r farn bod adroddiad SAC yn ddogfen werthfawr, fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch rhai o'r argymhellion. O ran cysylltu fwy eglur â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, roedd y Comisiwn o'r farn bod eu prosesau ymgynghori ynghyd â'u harfer o gynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol agored, yn enwedig y cyfarfod agored llwyddiannus a gynhaliwyd yn Llandudno yn ddiweddar, yn dangos bod mesurau sylweddol eisoes ar waith. Atebodd Mr Davies er y derbyniwyd effeithiolrwydd gweithdrefnau'r Comisiwn, roedd lle i wella yn y maes hwn ar lefel uwch na'r gwaith arolygu drwy gael Cynllun Corfforaethol yn eiddo i'r cyhoedd.

10.3 Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai llunio Cynllun Corfforaethol yn anodd heb arweiniad penodol a chyfeiriad strategol oddi wrth Gynulliad Cymru. Ystyriwyd mai dim ond trwy gydweithredu â Chynulliad Cymru y gallai'r Comisiwn gyflawni argymhellion rhifau 1 a 3. Dywedodd Mr Davies y byddai'n bosibl o hyd i'r Comisiwn fynd yn ei flaen â llunio Cynllun Corfforaethol heb gyfarwyddiadau arolygu gan Gynulliad Cymru. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cychwyn drafftio Cynllun Corfforaethol trwy gael cyngor gan ei Isadran Noddi. Dywedodd Mr Herniman y byddai SAC yn barod i gynorthwyo'r Comisiwn yn ei drafodaethau â'r Isadran Noddi.

11. AROLYGON ETHOLIADOL

11.1 Adroddwyd bod y sefyllfa gyfredol o ran Cyfarwyddiadau Cynulliad Cymru i'r Comisiwn wedi'i chynnwys ar agenda cyfarfod cyswllt chwarterol yr Ysgrifenyddiaeth a'r Isadran Noddi.

11.2 Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i gynnal cyflwyniadau ar y Cyfarwyddiadau a'r broses arolwg ar gyfer pob awdurdod unedol ar ddechrau'r arolwg. Dylai hyn gynnwys swyddogion y cyngor, cynghorwyr, cynghorwyr cymuned a'r cyhoedd.

12. GWYLIAU CYHOEDDUS A GWYLIAU BRAINT NADOLIG 2008 A BLWYDDYN 2009

12.1 Nododd y Comisiwn ddyddiadau'r gwyliau cyhoeddus.

13. UNRHYW FATER ARALL

13.1 Adroddwyd bod Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi gofyn am estyniad o fis i'r dyddiad cau ar gyfer derbyn cynrychiolaethau i gynigion drafft yr arolwg cymunedol. Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn cytuno i'r estyniad hwn.

13.2 Nododd y Comisiwn y datganiad datblygu cynaliadwy drafft a'r polisi caffael cynaliadwy. Cymeradwywyd y rhain yn ddibynnol ar unrhyw sylwadau pellach gan Aelodau a chânt eu cyhoeddi bellach.

13.3 Adroddwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynnal cyfweliad ag ymgeisydd am y swydd wag yn y Tîm Cymorth.

13.4 Gwnaeth y Cadeirydd elwa ar y cyfle yn ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd ac Aelod o'r Comisiwn i ddatgan ei diolch am y gefnogaeth a gafodd oddi wrth Aelodau ac aelodau staff presennol a blaenorol yn ystod ei hamser gyda'r Comisiwn.

14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14.1 Nodwyd mai Dydd Mercher 14 Ionawr 2009 am 10:45 a.m. oedd darpar ddyddiad y cyfarfod nesaf ond bod hyn yn amodol ar gadarnhau'r dyddiad gan Mr Bader.